CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

# POLISI AMGYLCHEDDOL MASNACHU



Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
1872 150 2022

# CYFLWYNIAD

**Mae ein polisi amgylcheddol yn nodi ymrwymiad adran Fasnachu Canolfan y Celfyddydau i fod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, gan geisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd; yn bwydo i mewn i'n Hegwyddorion Arweiniol:**

- Tarddiad - cefnogi'r cynnyrch a'r cyflenwyr Cymreig gorau oll, gydag ansawdd wrth wraidd y cynnyrch yr ydym yn ei wneud a'i werthu.
- Cynaliadwyedd - gweithio'n gyson tuag at gael cyn lleied o effaith ar yr amgylchedd ag y gallwn, codi ymwybyddiaeth, ymddwyn yn gyfrifol, a gweithio gyda'n holl randdeiliaid i helpu cyflawni hyn.
- ·Canolbwyntio ar bobl - rhoi blaenoriaeth i'n cwsmeriaid bob amser, cynnig y gwasanaeth gorau, yn bersonol ac yn groesawgar, gan sicrhau bod gan ein staff yr adnoddau a'r grym i wneud hynny.



# CYFLWYNIAD

**Rydym yn cydnabod bod cynhyrchu, trefnu, gweini a chael gwared â bwyd a diod o ddydd i ddydd yn debygol o ddefnyddio lefelau cymharol uchel o adnoddau naturiol a chreu maint arwyddocaol o wastraff bwyd a deunydd pecynnu.**

**Mae'n hanfodol felly ein bod yn cymryd mesurau ac yn adolygu ymarferion a phrosesau yn gyson er mwyn lleihau gwastraff a rheoli ein prosesau caffaeliad er mwyn cefnogi a diogelu'r amgylchedd, cynefinoedd naturiol a'n hecosystem werthfawr.**

**Rydym yn ymgymryd â nifer o ymrwymiadau yn y meysydd canlynol:**

- Cadwyn Brynu a Chyflenwi
- Gwastraff Bwyd
- Datgoedwigo
- Diraddio Moroedd
- Llygredd Aer a Diraddio Amgylcheddol
- Diraddio Tir
- Disbyddu Adnoddau
-

# CADWYN BRYNU A CHYFLENWI

- Prynu dŵr yfed lleol wedi'i botelu gan gyflenwyr lleol.
- Lle bo'n ymarferol, prynu cynnyrch lleol a thymhorol gan gyflenwyr lleol.
- Gweithio gyda sefydliadau bwyd rhanbarthol sy'n ceisio hyrwyddo cyflenwad a menter lleol.





# GWASTRAFF BWYD



- Mae ein holl wastraff coffi mâl, croen llysiau a phlisg wyau yn cael eu hailgylchu i wella'r pridd yng Ngardd Gymunedol y Brifysgol.

- Mae’r ddarpariaeth bwyd poeth yn cael ei monitro a’i haddasu er mwyn lleihau gwastraff bwyd yn sylweddol dros y cyfnod gweini.

- Gweithredu’r cynllun gwastraff bwyd ‘Rhy Dda i Fynd’ ar draws unedau er mwyn lleihau gwastraff bwyd.

- Rhoi gweddillion y bwyd sydd wedi’i becynnu i loches leol y digartref neu rewgell gymunedol y Brifysgol



# DATGOEDWIGO


- Prynu coffi RFA / Bcorp a gyflenwir mewn pecynnau cynaliadwy gan gyflenwr lleol.

- Bydd y Ganolfan yn anelu at leihau cynnyrch sy'n cynnwys olew palmwydd ar draws ei holl unedau.

- Bydd y Ganolfan yn lleihau cynnyrch sy'n cynnwys soi.

- Defnyddio papur ailgylchedig ar gyfer yr holl ddeunyddiau papur nad ydynt yn cael cyhoeddusrwydd.

- Creu ymwybyddiaeth o'r RFA i'n cwsmeriaid, hysbysu pobl am bwysigrwydd diogelu ein planed a'n rhywogaethau.



# DIRADDIO MOROEDD



- Rydym yn defnyddio cyllyll a ffyrc pren bellach yn lle rhai plastig a rhai sy'n seiliedig ar ddeunydd planhigion.

- Rydym wedi mabwysiadu cynllun cwpanau ailddefnyddiadwy i annog pobl i symud i ffwrdd oddi wrth gwpanau untro. Cynigir gostyngiad mewn pris i hyrwyddo'r fenter hon.

- Mae amrywiaeth o gwpanau cadw a photeli dŵr ar gael i'w prynu yn ein holl unedau.

- Defnyddir cynwysyddion a nwyddau gweini nad ydynt yn rhai untro o fewn ein hunedau. Lle na fedrir osgoi defnyddio nwyddau tafladwy, byddant yn ailgylchadwy. Dim ond cwpanau untro seiliedig ar blanhigion a brynir.

- Cwpanau ailddefnyddiadwy i'w prynu ar gyfer digwyddiadau.

# LLYGREDD AER A DIRADDIO AMGYLCHEDDOL



- Mae’r bwydlenni prydau poeth yn ein holl allfeydd arlwyo yn cynnig o leiaf 60% o opsiynau feganaidd a llysieuol er mwyn darparu dewis ac annog cwsmeriaid i roi cynnig ar gynnyrch newydd ac hyrwyddo newidiadau mewn arferion bwyta rheolaidd.


- Mae ein bar saladau yn 95% feganaidd ac yn gwbl lysieuol.

- Bydd prydau reis yn cael eu lleihau i uchafswm o un dogn ar y tro a chynigir opsiynau eraill nad ydynt mor ddwys o ran methan.[6]

- Lle bo’n ymarferol byddwn yn osgoi defnyddio cynnyrch rhewedig.

- Prynu’n lleol er mwyn lleihau milltiroedd carbon.

# DIRADDIO TIR



- Lleihau'r prydau cig eidion ar y cownter bwyd poeth a chreu mwy o ymwybyddiaeth o'r effaith y mae ffermio gwartheg yn cael ar yr ecosystem.

# DISBYDDU ADNODDAU



- Prynir offer cegin sydd â sgôr effeithlonrwydd o A neu uwch yn unig.

- Cefnogir yr ymgyrch i 'ddiffodd' pŵer, dŵr a nwy ar draws yr holl allfeydd, swyddfeydd a cheginau.

- Pob proses tendro am gytundeb yn y dyfodol i gynnwys ystyriaeth angylcheddol ac i fod yn rhan o'r matrics sgorio.

# Datganiad caffaeliad yn ymwneud â chynaliadwyedd a lles anifeiliaid

- Bydd Canolfan y Celfyddydau ond yn prynu wyau buarth.
- Bydd Canolfan y Celfyddydau ond yn prynu ieir ac wyau Prydeinig.
- Rhaid i'r sawl sy'n cyflenwi ieir a chynnyrch llaeth i Ganolfan y Celfyddydau feddu ar achrediad Gwarant Fferm a Thractor Coch.
- Bydd Canolfan y Celfyddydau ond yn prynu pysgod o ffynonellau cynaliadwy a bydd yn osgoi unrhyw rywogaeth a enwir ar restr rhywogaethau mewn perygl y Cyngor Stiwardiaeth Forol.
- Dim ond nwyddau harddwch a gynhyrchir heb greulondeb sy'n cael eu gwerthu yn ein siop.

Os ydym am sicrhau planed iach ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, RHAID I NI WEITHREDU ‘NAWR.

Rhaid i gynaliadwyedd fod yn rhan annatod o fywyd bob dydd ac o bob penderfyniad a wneir ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.

